Y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

30 Awst 2022

Annwyl Mr Irranca-Davies

## Craffu ar fil cydgrynhoi cyntaf Cymru – y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Gorffennaf 2022 yn gwahodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i roi barn ar y Bil a'r gwaith cydgrynhoi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Mae rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys:

- Diogelu, gwarchod a rheoli asedau hanesyddol ar ystâd CNC, gan annog mynediad atynt a gwerthfawrogiad ohonynt ymysg y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys 145 o Henebion Cofrestredig, 71 o Adeiladau Rhestredig, 46 o Barciau a Gerddi Cofrestredig, ac yn gysylltiedig â 48 o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Gyda'i gilydd, mae cyfanswm o 11,936 o Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol.

- Rheoli risg archeolegol ar ein gwaith gweithredol, ein prosiectau, a'n strategaethau.

- Rhoi cyngor rheoleiddiol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

- Paratoi Datganiadau Ardal sy'n integreiddio'r amgylchedd hanesyddol.

- Cefnogi cyflawniad dibenion Adran 5 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995).

- Cydymffurfio â'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo iddo, sy'n cynnwys tirweddau hanesyddol a diwylliannol.

Oherwydd hyn oll, mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn berthnasol i'n rôl a'n cyfrifoldebau mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.

Gan nad yw'r darpariaethau o fewn Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2022 yn newid effaith y ddeddfwriaeth bresennol, nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith ar rolau CNC mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.

Ymateb CNC i'r pedwar pwynt y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried:

i. Bodlondeb bod cwmpas y gwaith cydgrynhoi yn briodol.

I’r graddau y gall CNC ei gadarnhau, mae cwmpas y gwaith cydgrynhoi yn briodol.

ii. Bodlondeb bod y deddfiadau perthnasol wedi eu cynnwys o fewn y gwaith cydgrynhoi.

I’r graddau y gall CNC ei gadarnhau, mae’r deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys o fewn y gwaith cydgrynhoi.

iii. Mae'r Bil yn cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu'n newid eu heffaith gyfreithiol sylweddol dim ond i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2.

Nid oes gennym sylw ar sut mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cwrdd â gofynion Rheol Sefydlog 26C.2.

iv. Mae'r Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson.

Bydd y Bil cydgrynhoi symlach, cyson a dwyieithog hwn yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r gyfraith mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol, a bydd yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr sy'n llai cyfarwydd â deddfwriaeth o fewn y maes pwnc hwn. Mae hyn i’w groesawu’n fawr.

Yn gywir

[redacted]

Adrian James
**Arweinydd Tîm Cynllunio, Tirwedd ac Ynni**

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**
**Correspondence welcomed in Welsh and English**